# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Fideo gynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Mai 2020

Amser: 14.10 - 15.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6094

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Suzy Davies AS<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Nicola Edwards, Llywodraeth Cymru<br>Yr Athro Jean White, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei bod hi wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i warchod iechyd y cyhoedd.

1.3 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Dawn Bowden AC yn camu i'r adwy fel Cadeirydd Dros Dro yn achos unrhyw broblemau technegol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith i'r adroddiad ar farwolaethau annisgwyl ar ddechrau'r pandemig COVID-19 yng Nghymru gael ei gyhoeddi ac unwaith i Lywodraeth Cymru gael cyfle i'w ystyried.

2.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gymryd y camau a ganlyn:

- rhoi gwybod faint o'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth drwy Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector a Chronfa Cadernid y Trydydd Sector, a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc;
- egluro faint o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau trydydd sector sy'n golygu parhau â gwaith presennol a faint sy'n gyllid ychwanegol; a
- chadarnhau'r amserlenni adrodd ar gyfer y grŵp gorchwyl a gorffen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn gweithio gyda chynrychiolwyr gofalwyr i drafod anghenion penodol ystod eang o ofalwyr yn ystod y pandemig COVID-19 ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (xi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Cyn i'r Pwyllgor gytuno i'r cynnig, nododd y Cadeirydd mai'r cyfarfod hwn oedd busnes ffurfiol olaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddo ddod yn Senedd Cymru.
3.2 Cafodd y cynnig ei dderbyn.

## 4 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn graffu, gan gytuno i ysgrifennu at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 5 COVID-19: Trafod busnes sydd ar ddod y Pwyllgor.

5.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar waith arfaethedig y Pwyllgor ynghylch COVID-19. Cytunodd yr Aelodau ar raglen waith i gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid, a hynny gan flaenoriaethu'r meysydd a ganlyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol:

- effaith COVID-19 ar blant sy'n agored i niwed;
- effaith COVID-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; ac
- effaith COVID-19 ar addysg uwch ac addysg bellach.